GAIR Y BYWYD
CWRS HYFFORDDIANT

LLAWLYFR MYFYRWYR
2015/16

Cyfarwyddwr Hyfforddi: Y Parch Euros Wyn Jones BD, Y Coleg Gwyn, Ffordd Ffriddoedd, Bangor, Gwynedd LL57 2EH
Ffôn: 01248 372500 ebost:
eurosasioned@gmail.com

Cydlynydd Hyfforddi'r De: Y Parchg Aled D. Jones, MA, BD, MTh, 32 Heol Las, Caerfyrddin SA31 3LE
Ffôn: 01267 229167 ebost:
Parch.Aled@yahoo.co.

AMLINELLIAD

Cwrs hyfforddiant Coleg yr Annibynwyr Cymraeg yw hwn wedi ei anelu at hyfforddi pobl i ddyfnhau eu ffydd a'u galluogi i wasanaethu eu heglwysi yn enw ein Harglwydd Iesu Grist yn llawnach. Yn bennaf oll, gwasanaethu aelodau eglwysi'r Annibynwyr yw amcan y cwrs, ond nid hyfforddiant cyfyngedig i un enwad neu sect ydyw. Yr ydym erioed wedi pwysleisio ehangder y weledigaeth sy'n codi o'n dealltwriaeth o natur yr eglwys. Yr eglwys leol o dan awdurdod yr Arglwydd Iesu Grist yw'r pwerdy sy'n arwain ac yn datblygu bywyd ysbrydol ei haelodau. Cyfrwng i gyflawni hynny yn fwy effeithiol yw'r cyrsiau hyn. Am hynny, drwy'r blynyddoedd yr ydym wedi cydweithio gydag aloedau o eglwysi'r Bedyddwyr, y Presbyteriaid a'r Methodistiaid er mwyn cyflawni'r nod.

Ceir manylion y cyrsiau a gynigir ynghyd â gwybodaeth am y camau y gellir eu dilyn yn y llawlyfr.

Mae'r cwrs yn canoli yn arbennig ar:-

- ddatblygu a dyfnhau ffydd aelodau ein heglwysi
- deall a dehongli'r Ysgrythurau
- agor meysydd newydd o wasanaeth
- yr eglwys a'i chenhadaeth
- pregethu a chyfathrebu
- profi galwad yng ngwasanaeth Iesu Grist ar leoliad
- mynegiant y ffydd mewn addoliad a chred
- cymwysterau i wasanaeth pellach

CEFNDIR

Sefydlwyd y cwrs yn wreiddiol gan Goleg yr Annibynwyr Cymraeg fel cyfrwng i hyfforddi ymgeiswyr yn rhan-amser ar gyfer y weinidogaeth Gristnogol. Y mae'n ffrwyth blynyddoedd lawer o weithio yn y maes ac yn cynnig hyfforddiant trwyadl ar gyfer y weinidogaeth. Bydd y myfyrwyr yn cyfarfod mewn canolfannau cyfleus ar hyd a lled Cymru am sesiynau 1-2 awr ar y tro rhyw 6-8 gwaith mewn tymor gyda 4 Ysgol Sadwrn mewn blwyddyn.

LLWYBRAU

Bellach mae'r holl gyrsiau wedi eu trefnu yn y fath fodd fel eu bod yn plethu i'w gilydd ac yn cynnig cyfle i fyfyrwyr raddio o'r naill adran i'r llall. Y nod gyntaf yw dyfnhau ffydd aelodau ein heglwysi a gwneir hynny yn y cwrs sylfaenol. Y mae hwnnw hefyd yn creu awydd am hyfforddiant pellach ac yn gyfle i ymroi yn llawnach i wasanaeth yn eu heglwysi. Gall arwain at rywrai yn cyflwyno eu hunain i fod yn Bregethwyr Cynorthwyol cydnabyddedig ac i'r weinidogaeth.

Mae'r Cwrs yn amrywio yn ei hyd yn ôl y cymwysterau mae'r myfyriwr yn dymuno'i gael. Gall pregethwr cynorthwyol ennill y cymhwyster angenrheidiol mewn blwyddyn neu 2 flynedd rhan-amser. Mae Tystysgrif Gweinidogaeth y Coleg yn flwyddyn ychwanegol sy'n cynnwys lleoliad mewn cydweithrediad gydag Eglwysi neu Ofalaeth Leol.

SYLFAEN

Yn ystod y blynyddoedd diwethaf datblygodd y Coleg mewn cydweithrediad ag Undeb yr Annibynwyr Cymraeg gyrsiau ar gyfer aelodau eglwysig yn gyffredinol. Cwrs sylfaenol yw hwn sy'n cynnwys amrywiol elfennau ar bynciau fel :-

ARWAIN ADDOLIAD, MEITHRIN ARWEINWYR, CENHADU, BOD YN AELOD, BOD YN DDIACON, ARWAIN Y SACRAMENTAU, GWAITH IEUENCTID AC YN Y BLAEN.

Cyflwyniadau Power Point yw llawer o'r rhain, wedi eu hanelu tuag at ysbrydoli aelodau eglwysig i weld yr angen am hyfforddiant pellach.

Yn ogystal, datblygwyd cyrsiau ar gyfer y rhai sydd am wasanaethu eu Cyfundebau fel Pregethwyr Cynorthwyol er mwyn diogelu safon yr hyn a gyflwynir o'r pulpudau o Sul i Sul. Y mae pedair elfen sylfaenol i'r cwrs hwn. Cyfundebau Lleol yr Annibynwyr fydd yn dyfarnu'r cymhwyster

hwn i'r rhai sy'n ei dymuno. Mae'r broses o gydnabod pregethwyr cynorthwyol yn un sy'n

Dehongli'r Ysgrythurau; Pregethu; Addoli; Yr Eglwys a'i Chenhadaeth.

Y mae'r cwrs yn cael ei gynnig ar ffurf modiwlau gydag amrywiaeth o gymwysterau ar gael. Y mae hefyd yn annog addysgu yng nghyd-destun yr eglwys leol, lle gall ffydd a phrofiad aelodau ddod i gysylltiad â her y cwricwlwm. Yn y broses hon o addysgu a deall galluogir aelodau ein heglwysi i ddyfnhau eu ffydd ac i gymhwyso eu hunain ar gyfer gwasanaeth pellach.

Mae'r cwrs yn cydnabod gwerth y cysylltiad hanfodol rhwng diwinyddiaeth a gwaith ymarferol: yr Efengyl a Chenhadaeth; yr Athrawiaeth a'r Foeseg; y Traddodiad y canrifoedd a'r datblygiadau diweddaraf.

ARWEINWYR

Staff a thiwtoriaid Coleg yr Annibynwyr sy'n gyfrifol am y cwrs:

Y Parchg. Athro Euros W. Jones, BD

Y Parchg. Aled D Jones, M.A, B.D., M.Th.

Tiwtoriaid ychwanegol y gelwir am eu gwasanaeth i gyflwyno modiwlau arbennig.

Ymddiriedolwyr Coleg yr Annibynwyr fydd a'r gair terfynol ynglŷn â chymhwyster myfyriwr i dderbyn Tystysgrif Pregethwr Cynorthwyol gan ei Gyfundeb a Thystysgrif Cymhwyster Gweinidogaeth.

CYNLLUN Y CWRS

Mae pedair gris i'r cwrs sy'n galluogi ymgeiswyr i hyfforddi ar gyfer gwahanol gymwysterau:-

Safon 3 Sylfaenol: Datblygir mewn partneriaeth efo eglwysi lleol a Chyfundebau

Safon 4 Pregethwyr Cynorthwyol: Tystysgrif Cyfundeb Dyfernir gan y Cyfundebau

Safon 5 Y Weinidogaeth Gristnogol: Tystysgrif Coleg

Safon 7 Gradd Meistr mewn Gweinidogaeth (M.A. neu M.Th.)

MODIWLAU

Cyfansoddwyd pob modiwl gan unigolion a benodwyd gan y Staff neu Arbenigwyr eraill ac maent yn cynnwys cyfres o ddarlithoedd ynghyd â llyfryddiaeth fanwl a thasgau i'w cyflawni.

Ymdrechir i ddatblygu yn y rhan fwyaf o'r modylau gydbwysedd rhwng gwaith academaidd a gwaith ymarferol gan gyflwyno rhychwant eang o wahanol ymatebion diwinyddol, diwylliannol a moesegol.

Lluniwyd y modiwlau i blethu i'w gilydd fel bo'r myfyrwyr nid yn unig yn cael rhychwant eang o ddisgyblaethau diwinyddol ond hefyd yn adeiladu pontydd gyda gwaith ymarferol yr eglwysi a'r weinidogaeth. Cyflwynir modiwlau mewn diwinyddiaeth yn ogystal ag mewn stiwardiaeth eglwysig.

DULLIAU DYSGU

Darlithoedd, seminarau a phrofiad gwaith. Dosbarthiadau pregethu yn benodol i'r rhai sy'n paratoi ar gyfer y weinidogaeth neu i fod yn bregethwyr cynorthwyol. Trefnir y dosbarthiadau i'r ymgeiswyr am y weinidogaeth a'r pregethwyr cynorthwyol mewn nifer o ganolfannau lleol yn y Gogledd, y Canolbarth a'r De. Trefnir y dosbarthiadau i aelodau eglwysig mewn canolfannau ymhob Cyfundeb (hyd y gellir). Datblygwyd un modiwl lleoliad yn benodol ar gyfer ymgeiswyr am y weinidogaeth i gael profiad ymarferol o rannu ym mywyd eglwys neu ofalaeth.

ASESU

Asesir y modiwlau yn ffurfiol gan ddefnyddio dulliau sy'n briodol ag arfer y Coleg: traethodau, traethodau estynedig, cyflwyniadau seminar, arwain gwasanaethau, dosbarth pregethu, ac arholiadau (lle bo hynny'n addas).

Nod yr asesu yw darganfod cyraeddiadau academaidd myfyrwyr ynghyd â meithrin dawn i feddwl yn greadigol ac i fynegi eu hunain yn gryno ac eglur.

Cynigir cyfle i fyfyrwyr i ailsefyll modiwlau y maent wedi bod yn aflwyddiannus ynddynt. Eiddo'r Coleg fydd y gair terfynol ar sawl gwaith y gall myfyrwyr ailsefyll. Gall myfyrwyr gyfeirio unrhyw apêl i Ymddireiedolwyr y Coleg.

GOFAL BUGEILIOL

Daw y rhan fwyaf o'r myfyrwyr i'r cyrsiau gyda chefnogaeth eu heglwysi lleol. Ceir arweiniad yn ystod y cwrs gan eu tiwtoriaid. Bydd pob ymgeisydd am y weinidogaeth pan fyddant ar brofiad gweinidogaethol yn cael goruchwyliaeth fanwl gan dri pherson. Un o'r eglwys leol/ofalaeth lle maent yn cyflawni'r lleoliad; un o'r Cyfundeb lle mae'r eglwys; un aelod o staff Coleg yr Annibynwyr. Bydd y pwyllgor hwn yn gyfrifol am oruchwylio datblygiad yr ymgeisydd ac yn trafod unrhyw broblemau yn gyfrinachol.

ADNODDAU LLYFRGELL

Mae adnoddau llyfrgelloedd ar gael yng Nghanolfannau'r Annibynwyr yng Ngholeg y Drindod, Caerfyrddin ac yng Nghanolfan yr Ymneilltuwyr yng Ngholeg y Bedyddwyr, Bangor.

DERBYNIAD I'R CWRS

Mae'r cwrs yn agored i bawb sy'n meddu cymhwyster priodol yn Safon 3 neu yn fyfyriwr aeddfed.

ADDYSG FLAENOROL

Os yw myfyrwyr wedi ennill credydau dilys mewn diwinyddiaeth o sefydliad cydnabyddedig gan y Coleg cânt eu rhyddhau o'r orfodaeth o ddilyn rhai modiwlau. Disgwylir tystiolaeth ysgrifenedig o ddilysrwydd y credydau a enillwyd. Eiddo Staff y Coleg yr hawl i nodi pa fodiwlau y gellir eu hepgor.

YSGOLION SADWRN

Trefnir pedair Ysgol Sadwrn mewn blwyddyn. Maent yn gyfle rhagorol i'r myfyrwyr o bob rhan o Gymru ddod i adnabod ei gilydd ac i rannu profiadau. Cânt gyfle hefyd i gydaddoli ac i adeiladu ei gilydd yn ogystal â derbyn hyfforddiant yn y gwahanol ddisgyblaethau gan arbenigwyr cydnabyddedig o'r tu allan i staff y Coleg. Ynddynt hwy bydd y cyfarfodydd Staff/Myfyrwyr yn cael eu cynnal.

CYRSIAU AR Y WE

Cynigir nifer o'r modiwlau ar safle we Coleg yr Annibynwyr. Mae'r holl gyrsiau ar gael yn rhad, ond bydd angen cofrestru gyda'r Coleg i ennill y cwymhwyster a ddymunir.

STAFF / MYFYRWYR

Cynhelir pedwar cyfarfod yn flynyddol i'r myfyrwyr drafod gyda'r staff unrhyw fater yn ymwneud â'r cwrs a'i gynnwys. Ni thrafodir unrhyw faterion disgyblaethol na materion personol y myfyrwyr yn y cyfarfodydd hyn gan mai eu hamcan yw clywed unrhyw feirniadaeth adeiladol gan y myfyrwyr am gynnwys academaidd ac ati y cwrs.

HYFFORDDIANT MEWN SWYDD

Mewn cydweithrediad ag Undeb yr Annibynwyr Cymraeg mae Coleg yr Annibynwyr wedi cydnabod ers blynyddoedd bwysigrwydd trefnu dosbarthiadau i weinidogion sydd wedi eu hordeinio yn y pum mlynedd diwethaf a threfnu nifer o sesiynau hyfforddiant parhaol ar eu cyfer.

Mae pob un o'r modiwlau a restrir yn y Llawlyfr yn agored iddynt eu dilyn pe dymunent. Yn ogystal, bydd y Coleg mewn cydweithrediad ag enwadau ac asiantaethau arbenigol fel Cymdeithas y Beibl ac Adran Gofal Lliniarol, Prifysgol Lerpwl yn trefnu cyrsiau i weinidogion mewn mannau cyfleus iddynt allu eu mynychu.

OL-RADD

Mewn cydweithrediad efo Adran Crefydd ac Athroniaeth Prifysgol Bangor cynigir gradd Meistr (M.A. neu M.Th.)

Pedwar Traethawd 5,000 ar y pynciau canlynol:

Datblygiad y Weinidogaeth yn yr Eglwys Fore

Addoli yn y Testament Newydd

Addoliad y Piwritaniad

Yr Eglwys yn yr Ugeinfed Ganrif

Traethawd Hir (20,000)

Adfyfyrdod Beirniadol o Flwyddyn o Brofiad Gweinidogaethol o dan Hyfforddiant.

CRYNODEB

Safon 3
Y CWRS SYLFAENOL

Modiwlau

1. Addoli a Chenhadu
2. Sylfeini'r Ffydd
3. Themâu'r Beibl
4. Hanes ac Arbenigrwydd ein Traddodiadau

Gellir cwblhau taflenni gwaith gyda'r cwrs hwn i'w hasesu gan y bwrdd rheoli os yw'r ymgeiswyr am ddilyn cyrsiau pellach.

Trefnir nifer o gyrsiau mewn gwahanol ganolfannau i aelodau'r dosbarthiadau gael cyfarfod â'i gilydd i rannu profiadau ond prif ddulliau dysgu'r cwrs yw canolfannau lleol o dan arolygaeth tiwtor lleol.

SAFON 4

TYSTYSGRIF PREGETHWR CYNORTHWYOL (120 Credyd)

Modiwlau

1.1 Dehongli'r Beibl: Pobl Dduw a'r Addewid
1.2 Dehongli'r Beibl: Yr Efengylau
1.3 Dehongli'r Beibl: Yr Actau a'r Epistolau

2.4 Addoli a Phregethu
2.5 Cenhadu a Chyfathrebu
2.6 Arolwg Cyffredinol o Hanes yr Eglwys

SAFON 5

TYSTYSGRIF COLEG YR ANNIBYNWYR (180 credyd)

Yn ychwanegol at y modiwlau yn Safon 1 a 2 ychwanegir Modiwlau ar Hanes yr Eglwys ac Athrawiaeth Gristnogol a Bugeiliol.

3.1 Sylfeini'r Ffydd
3.2 Modiwl Lleoliad a Gwaith Bugeiliol
3.3 Hanes ac Egwyddorion yr Annibynwyr

Ceir cyfanswm o naw uned sy'n cynnwys elfennau hanfodol addysg ar gyfer y weinidogaeth Gristnogol. Cyflwynir y modiwl mewn mewn gwahanol ganolfannau cyfleus i'r myfyrwyr. Disgwylir gwaith ysgrifenedig ganddynt a bydd hwnnw yn cael ei asesu gan y ddau aelod Staff. Dyfernir Tystysgrif Coleg i bob myfyriwr sydd wedi cwblhau gofynion y cwrs yn llwyddiannus. Eglurir y gofynion ysgrifenedig yn y disgrifiad o bob modiwl.

CRYNODEB O GWRS COLEG YR ANNIBYNWYR CYMRAEG

Dehongli'r Beibl	**Addoli a Bugeilio**	**Hanes Ac Athrawiaeth Gristnogol**
Pobl Dduw a'r Addewid	Addoli a Phregethu	Sylfeini'r Ffydd
Yr Efengylau	Bugeilio/Lleoliad	Hanes Cristnogaeth yng Nghymru
Yr Actau a'r Epistolau	Cenhadu a Chyfathrebu	Hanes ac Egwyddorion Ymneilltuaeth

Y mae'r modiwl yn cynnwys arweiniad sylfaenol i waith y weinidogaeth Gristionogol gan rychwantu'r tri phwnc sef, Dehongli'r Ysgrythurau, Athrawiaeth a Hanes yr Eglwys ac Astudiaethau Bugeiliol.

Trefnir cyfarfodydd mewn gwahanol ganolfannau a fydd yn gyfleus i'r myfyrwyr a chynhelir 4 Ysgol Sadwrn y flwyddyn lle gall y myfyrwyr drafod eu gwaith gyda'r tiwtoriaid.

BLWYDDYN 1	BLWYDDYN 2	BLWYDDYN 3
Yr Hen Destament	Cristionogaeth yng Nghymru	Sylfeini'r Ffydd
Addoliad a Phregethu	Yr Efengylau	Lleoliad
Actau ac Epistolau	Cenhadu a Chyfathrebu	Hanes ac Egwyddorion Ymneilltuaeth

MODIWLAU

DEHONGLI'R YSGRYTHURAU: Pobl Dduw a'r Addewid

TIWTOR: Y Parchg Euros W Jones / Y Parchg Aled D Jones

NOD
Astudio llenyddiaeth yr Hen Destament gyda sylw i Addewid Duw i'w Bobl.

AMCANION

Ar diwedd y modiwl dylai'r myfyrwyr fedru:

- Deall cyd-destun diwylliannol yr Hen Destament o safbwynt beirniadaeth.
- Trafod yn feirniadol y dadleuon a gyfyd y traddodiadau am yr Addewid
- Olrhain gwahanol ddatblygiadau ym mherthynas Duw a'i bobl yng nghyfnod yr Hen Destament

CYNNWYS
Canolbwyntir ar hanes llunio a ffurfio yr addewid; creu y bobl yn genedl; trafod y tensiynau a gododd y berthynas rhwng Duw a'i bobl fel yr adlewyrchir hynny yn llenyddiaeth yr Hen Destament gan sylwi yn arbennig ar y Pumllyfr.

ORIAU CYSWLLT
30 awr

DULLIAU DYSGU
Darlithoedd a seminarau

ASESU
Dau draethawd 2,500 o eiriau y naill ar y Salmau a'r llall ar y Proffwydi
Neu/A Pregethau a Gwasanaethau Addas

DARLLEN
Christopher Wright a J Lamb, *Understanding and Using the Bible,* SPCK 2009
Eryl W Davies, *Biblical Criticism, A Guide to the Perplexed,* Bloomsbury 2013
Gwilym H Jones, *Arweiniad i'r Hen Destament*, Caerdydd 1966.
Gwilym H Jones, *Diwinyddiaeth yr Hen Destament*, Caerdydd 1986.
Gwilym H Jones, *Cerddi Seion,* Caerdydd 1975.
G Lloyd Jones, *Problem Dioddefaint a Llyfr Job*, Caernarfon 1980.
E A Martens, *Plot and Purpose in the Old Testament,* Leicester, 1981.
G Lloyd Jones, *Doethineb Israel,* Caerdydd 1990.
John Drane, *Introducing the Old Testament,* Rhydychen 2011.

MODIWLAU

DEHONGLI'R YSGRYTHURAU: YR EFENGYLAU

TIWTOR: Y Parchg Aled D Jones/ Y Parchg Euros W Jones

NOD
Astudio llenyddiaeth y Testament Newydd gyda sylw arbennig i'r Efengylau.

AMCANION
Ar diwedd y modiwl dylai'r myfyrwyr fedru:

- Deall cyd-destun diwylliannol yr Efengylau o safbwynt beirniadaeth.
- Trafod yn feirniadol y dadleuon a gyfyd y traddodiadau am Iesu.
- Crynhoi prif bwyntiau Iesu ac ymateb yr Eglwys Fore.

CYNNWYS

Canolbwyntir ar gefndir hanesyddol y Testament Newydd gan edrych yn benodol at y Phariseaid, Sadwceaid, Y Deml yn Jerwsalem, Cwmrân, Yr Ymerodraeth Rufeinig. Trafodir y broblem synoptaidd a chyflwyno'r myfyriwr i ffrwyth beirniadaeth feiblaidd (beirniadaeth ffurf, redactaidd, a'r ymchwil am Iesu Hanes). Cyfunir hynny gydag astudiaeth o un o'r Efengylau.

ORIAU CYSWLLT
30 awr

DULLIAU DYSGU
Darlithoedd a seminarau

ASESU
Traethodau. Dau draethawd 2,500 o eiriau yr un.
A/Neu Pregethau a Gwasanaethau

DARLLEN
Marshall, Travis & Paul, *Exploring the New Testament, Vol 1* SPCK 2002
W.D. Davies, *Invitation to the New Testament*, Llundain 1967
Isaac Thomas, *Arweiniad Byr i'r Testament Newydd*, Caerdydd 1961
D.P. Davies, *Yr Efengylau a'r Actau*, Caerdydd, 1978.
R. Brown (F. Maloney [gol]), *An Introduction to the New Testament*, Efrog Newydd, 2003
J. Drane*, Introducing the New Testament*, Rhydychen 2010.

MODIWLAU

DEHONGLI'R YSGRYTHYRAU: YR ACTAU A'R EPISTOLAU

TIWTOR: Parchg Euros W Jones / Parchg Aled D Jones

NOD

Cynorthwyo'r myfyrwyr i ddeall cefndir yr Actau a'r Epistolau er mwyn eu galluogi i'w dehongli yn well.

AMCANION

Ar ddiwedd y modiwl dylai'r myfyrwyr gael gwell dealltwriaeth o:

- Gefndir yr Actau a'r berthynas gyda'r Epistolau
- Perthynas yr Epistolau âr eglwysi cynnar
- Trafod yn Feirniadol ddiwinyddiaeth yr Actau a'r Epistolau

CYNNWYS

Ceir rhagarweiniad i Lyfr yr Actau, Epistolau Paul a'r Epistolau eraill. Trafodir syniad Paul am ei alwad apostolaidd a'i syniadau am gyfiawnhad trwy ffydd, cyflwr y ddynoliaeth ac arwyddocâd marwolaeth Crist. Syniadau unigryw yr epistolau eraill mewn perthynas â bywyd ac addoliad yr eglwysi. Enghreifftir hyn gyda thestunau arbennig.

ORIAU CYSWLLT

30 Awr

DULLIAU DYSGU

Darlithoedd a seminarau

ASESU

Traethodau. Dau draethawd 2,500 o eiriau yr un, a/neu Bregethau a Gwasanaethau

DARLLEN

Marshall, Travis & Paul, *Exploring the New Testament, Vol2* SPCK 2002
John Ziesler, *Pauline Christianity*, Rhydychen 1990
Owen E Evans, *Llythyrau Paulaidd* Caerdydd 1984
Eryl W Davies, *Yr Epistolau Cyffredinol*, Caerdydd
John Drane, *Introducing the New Testament,* Rhydychen 2010.

MODIWL

MODIWL

HANES CRISTIONOGAETH YNG NGHYMRU

Tiwtor: Parchg Euros W Jones / Parchg Aled D Jones
NOD

Cyflwyno astudiaeth gryno o ddatblygiad Cristnogaeth yng Nghymru o'i ddyfodiad cyntaf hyd at yr ugeinfed ganrif.

AMCANION

Dyfnhau dealltwriaeth y myfyrwyr o natur o nodweddion y cyfundrefnau Cristnogol yng Nghymru dros y canrifoedd a dylanwad Cristnogaeth ar hanes y wlad.

CYNNWYS

Olrhain natur a nodweddion yr Eglwys Geltaidd yng Nghymru a thystiolaeth ac effaith y Diwygiad Protestannaidd a thwf yr Eglwys Anglicanaidd ynghyd â chwrs a theithi meddwl ymneilltuaeth yng Nghymru o'r bedwaredd ganrif ar bymtheg ymlaen.

ORIAU CYSWLLT
30 awr dros un tymor

ASESU
Dau draethawd 2,500 o eiriau neu draethawd estynedig o 5000 o eiriau.

DARLLEN
Glanmor Williams (cyf T.M. Bassett) *Yr Eglwys yng Nghymru o'r Goncwest hyd at y Diwygiad Protestannaidd.* Caerdydd 1968. eto & Yates a Knight, *The Welsh Church,* 1603 – 1920, Caerdydd 2007.
Geraint H. Jenkins, *Hanes Cymru yn y Cyfnod Modern Cynnar 1530 – 1700*. Caerdydd 1983
David Walker (gol.) *A History of the Church in Wales*, Penarth 1976
R Tudur Jones, *Ffydd ac Argyfwng Cenedl,* Abertawe 1981.
Densil Morgan, *The Span of the Cross,* ail arg. Caerdydd 2011
Gwyn Davies, *Golau Gwlad, Cristnogaeth yng Nghymru 200-2000,* Penybont 2002.

MODIWL

HANES AC EGWYDDORION YMNEILLTUAETH

TIWTOR: Parchg Euros W Jones / Y Parchg. Guto P. Ap Gwynfor

NOD

Cyflwyno astudiaeth o ddatblygiad yr enwadau ymneilltuol yng Nghymru ynghyd â thrafod nodweddion arbennig eu syniadaeth.

AMCANION

Galluogi'r myfyrwyr i ymgydnabod â hanes pob un o'r enwadau ymneilltuol Cymraeg ac i werthfawrogi eu pwysleisiadau athrawiaethol arbenigol.

CYNNWYS

Olrheinir datblygiad yr Annibynwyr a'r Bedyddwyr o 1639 ymlaen gan drafod patrymau eu heglwysyddiaeth a'u hegwyddorion neilltuol. Trafodir hefyd ddatblygiad y diwygiad Methodistaidd yn y ddeunawfed ganrif a thwf yr Hen Gorff ynghyd â'r Eglwysyddiaeth Bresbyteraidd. Cyfeirir hefyd at dwf undodiaeth ac at ddyfodiad Wesleaeth i Gymru.

ORIAU CYSWLLT
30 awr dros yn tymor

ASESU
Dau draethawd 2,500 o eiriau yr un neu un traethawd estynedig o 5000 o eiriau.

DARLLEN
R. Tudur Jones, *Hanes Annibynwyr Cymru*. Abertawe 1966
T.M. Bassett, *Bedyddwyr Cymru*. Llandysul 1977.
Gomer M. Roberts (gol.) *Hanes Methodistiaeth Galfinaidd Cymru*,
Cyf. 1 a 2 , Caernarfon 1973, 1978, gol John Gwynfor Jones cyf. 3 2011.

Ynghyd â llyfrau eraill gan y tiwtor.

MODIWL

SYLFEINI'R FFYDD

TIWTOR: Y Parchg Euros W. Jones / Parchg Aled D Jones

NOD
I gynorthwyo myfyrwyr i ddeall a gwerthfawrogi'r athrawiaethau sy'n sail i'r Ffydd Gristnogol.

AMCANION

Dylai'r myfyrwyr erbyn diwedd y modiwl:

- ddeall sut y ffurfiodd yr Eglwys ei ddealltwriaeth o Dduw, dynolryw a'r byd
- ddeall cynnwys yr athrawiaethau unigol a dirnad eu perthynas â'i gilydd
- deall perthnasedd yr athrawiaethau hyn y fywyd cyfoes.

CYNNWYS

Canolir yn benodol ar yr athrawiaethau canlynol: Y Beibl, Duw, Crist, Yr Ysbryd Glân, Dyn, Y Pethau Diwethaf, Eglwys, Sacramentau.

ORIAU CYSWLLT
30 awr dros dymor

DULLIAU DYSGU
Darlithoedd a thiwtorial

ASESU
Dau draethawd 2,500.

DARLLEN

Dewi Eirug Davies, *Arweiniad i Athrawiaeth Gristionogol*, Abertawe 1969
Isaac Thomas, *Drosom Ni*, Abertawe 1991
Densil Morgan, *Sylfaen a Gwraidd*, Bangor 1994
A.E. McGrath, *Christian Theology: An Introduction*, Rhydychen 2010.
Colin Gunton (gol), *The Christian Faith: an introduction to Christian Doctrine,* Rhydychen 2001.

MODIWL

ADDOLI A PHREGETHU

TIWTOR: Y Parchg Euros W Jones / Y Parchg Aled D Jones

NOD
Cyflwyno myfyrwyr i hanfodion addoli a phregethu gan eu trwytho yn etifeddiaeth gyfoethog ein traddodiadau ni a thraddodiadau eraill.

AMCANION

Erbyn diwedd y modiwl dylai'r myfyriwr allu:

- Trefnu oedfaon ar amrywiol themâu ac achlysuron arbennig
- Llunio braslun o bregethau ar wahanol destunau
- Arwain gwasanaeth mewn dosbarth pregethu

CYNNWYS
Amlinellir ddiwinyddiaeth addoliad Cristnogol a chyflwynir y myfyrwyr i brif egwyddorion yr addoliad hwnnw. Manylir ar y pynciau canlynol:

- Lle'r Gair yn yr Oedfa a Darllen y Gair
- Y Weddi Gyhoeddus
- Yr Emyn
- Y Bregeth a'r Pregethu

ORIAU CYSWLLT
30 awr dros un tymor

DULLIAU DYSGU
Darlithoedd, trafodaethau a dosbarthiadau pregethu.

ASESU
Un traethawd ar hanfodion addoli (2,500) ynghyd â nifer o wasanaethau a pregethau. Disgwylir i ymgeiswyr am y weinidogaeth draddodi pregeth o flaen dosbarth pregethu.

DARLLEN
John Stott, *I Believe in Preaching,* London, 1982. Adarg. 2014.
R H Williams, "Dysgu a Phregethu Iesu" Undeb yr Annibynwyr Abertawe 1960
James Stewart, *Teach Yourself Preaching, / Heralds of God*. Hodder
Richard G Jones, *Groundwork of Worship and Preaching*, Epworth 1980.

MODIWL

CENHADU A CHYFATHREBU

TIWTOR: Y Parchg Euros W Jones / Y Parchg Aled D Jones

NOD

Cyflwyno natur hanfodol cenhadaeth Duw yn y cyfoes a pherthynas y genhadaeth honno â diwylliant.

AMCANION

Wedi cwblhau'r modiwl yn llwyddiannus gall myfyrwyr:

- Ddyfnhau eu dealltwriaeth o genhadaeth Duw yn y byd
- Dadansoddi her y diwylliant cyfoes
- Ddeall gwerth partneriaeth mewn cenhadaeth
- Weld gwerth yr eglwys leol yn y dasg o genhadu.

CYNNWYS

Cyflwynir seiliau Beiblaidd y genhadaeth Gristnogol gan ystyried y gwahanol fodelau o genhadaeth a geir yn y Beibl. Ystyrir her y gymdeithas aml-grefyddol gyfoes i'r genhadaeth a'r amrywiol atebion a gynigir gan Gristnogion. Trafodir pa fodd i ddatblygu cymunedau cenhadol cydenwadol. Astudiaeth o destun Cyfamod Lausanne.

ORIAU CYSWLLT

30 awr dros un tymor

ASESU

Dau draethawd 2,500 Neu Draethawd Estynedig 5000

DARLLEN

David Bosch, *Transforming Mission Paradigm Shifts in theology of Mission* Maryknoll, 2001
Lesslie Newbigin, *The Gospel in a Pluralist Society*, London 1991
Walter Bruggeman, *Biblical Perspectives on Evangelism*,1993.
Rene Padilla, *Mission Between the Times*, Grand Rapids 1986
Scherer/Bevans, *New Directions in Mission and Evangelism,* Vols 1&2, Maryknoll, 1992,1994.
Christopher J Wright, *The Mission of God, Unlocking God's Grand Narrative,* IVP 2006.

MODIWL BUGEILIO

Lleoliad

TIWTOR: Y Parchg Euros W Jones / Y Parchg Aled D Jones

NOD
Cyflwyno natur ac anghenion gofal bugeiliol Cristnogol.

AMCANION
Erbyn diwedd y modiwl dylai'r myfyriwr fod yn:

- Gwybod am rai agweddau ar ddatblygiad gofal bugeiliol trwy hanes yr Eglwys
- Gweld elfennau ac angenrheidiau gofal bugeiliol cyfoes
- Deall oblygiadau ymarferol cyfrifoldeb Cristnogol yn y byd cyfoes.

CYNNWYS
Bydd y modiwl yn astudio hanes a datblygiad gofal yr Eglwys ar hyd y canrifoedd, ac yn ystyried y cymwysterau allweddol y dylid eu meithrin i gyflawni'r gwaith hwn fel gwrando a chynghori. Edrychir hefyd ar gyfrifoldeb bugeiliol yr Eglwys tuag at rai aelodau arbennig o'i mewn.

ORIAU CYSWLLT

DULLIAU DYSGU
Darlithoedd, seminarau a thrafodaethau

ASESU
Goruchwylir pob cynllun lleol yn ofalus gan dri o bobl gymwys: aelod o staff y coleg; aelod o eglwys/gofalaeth leol; gweinidog profiadol lleol. Bydd y myfyriwr yn cael ei gynghori gan aelod o staff y coleg yn unig.

DARLLEN
Dewi M Hughes, *Gofala Di,* Cyhoeddiadau'r Gair 2013
Maurice Loader, *Y Gweinidog a'i Waith*, Abertawe 1982
Elfed ap Nefydd Roberts*, Diwinyddiaeth Fugeiliol*, Caernarfon 1993
Paul Ballard (ed.), *The Foundations of pastoral Studies and Practical Theology*, Caerdydd 1986
John Patton, *Pastoral Care: An Essential Guide*, Nashville, 2005
Charles Gerkin, *An Introduction to Pastoral Care*, Nashville, 1997
Flanagan a Thornton, *Bloomsbury Guide to Pastoral Care,* Llundain 2014.